

OFFERYNAU STATUDOL DRAFFT

202X Rhif xxx

GALLUEDD MEDDYLIOL

Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 Rheoliadau
(Darpariaethau Canlyniadol)

Gwnaed - - - -

202X

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) i (4)

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Rheoliadau canlynol wrth ymarfer y grymoedd a roddir gan adran 5 o Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019(a).

Yn unol ag adran 5(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron a'u cymeradwyo gan benderfyniad o ddau Dŷ'r Senedd.

RHAN 1

RHAGARWEINIOL

Dyfynneb a chychwyn

1.—(1) Gellir dyfynnu'r Rheoliadau hyn fel Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 Rheoliadau (Darpariaethau Canlyniadol).

(2) Mae'r Rhan hon a Rhan 2 yn dod i rym ar [].

(3) Mae Rhannau 4, 6 ac 8 yn dod i rym ar [];

(4) Mae'r gweddill y Rheoliadau hyn yn dod i rym ar [].

Maint

2. Mae gan unrhyw ddiwygiad neu ddirymiad o ddeddfiad a wneir gan y Rheoliadau hyn yr un maint â'r deddfiad a ddiwygiwyd neu a ddirymwyd.

RHAN 2

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH SYLFAENOL SY'N DOD I RYM AR []

Diwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970

3. Yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970(a), ym mharagraff 1 o Atodlen 1, yn y cofnod ynglŷn â Deddf Galluedd Meddyliol 2005, ar ôl y cofnod ynglŷn ag Atodlen A1 mewnosodwch—

“

Atodlen AA1	Unrhyw swyddogaethau.”
-------------	------------------------

Diwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

4. Yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(b), ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn y cofnod ynglŷn â Deddf Galluedd Meddyliol 2005—

(a) yng ngholofn 1, ar gyfer “Atodlen A1” rhowch “Atodlenni A1 ac AA1”;

(b) yng ngholofn 2, ar ôl “preswylwyr cartrefi gofal.” mewnosodwch—

“Swyddogaethau perthynol i amddifadu o ryddid trwy rinwedd trefniadau o dan Atodlen AA1 i'r Ddeddf.”.

RHAN 3

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH SYLFAENOL SY'N DOD I RYM AR []

Diwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970

5. Yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970), ym mharagraff 1 o Atodlen 1, yn y cofnod ynglŷn â Deddf Galluedd Meddyliol 2005, hepgorwch y cofnodion ynglŷn ag adrannau 39A, 39C a 39D ac i Atodlen A1.

Diwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

6. Yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn y cofnod ynglŷn â Deddf Galluedd Meddyliol 2005—

(a) ar gyfer y cofnod yng ngholofn 1, ar gyfer "Adrannau 39, 39A, 39C, 39D, 49 ac Atodlenni A1 ac AA1" rhowch "Adrannau 39 a 49 ac Atodlen AA1";

(b) ar gyfer y cofnod yng ngholofn 2 rhowch-

“Rhoi cyfarwyddyd i eiriolwr annibynnol ar alluedd meddyliol cyn darparu llety i unigolyn sydd â diffyg gallu; adroddiadau mewn achosion, swyddogaethau o dan Atodlen AA1 i'r Ddeddf.”.

RHAN 4

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH EILAIDD SY'N DOD I RYM AR []: LLOEGR

(a) 1970 c.42. Mewngofnodwyd y cofnod ynglŷn ag Atodlen 1 gan baragraff 13(2) o Atodlen 9 i Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 (c.12).

(b) anaw 4.

Diwygiad i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol 2000

7. Yn rheoliad 5(c) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol 2000(a), ar gyfer “Atodlen A1” rhowch “Atodlenni A1 ac AA1”.

Diwygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Codi Taliadau ar Ymwelwyr o Dramor) 2015

8. Yn rheoliad 18(b) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Codi Taliadau ar Ymwelwyr o Dramor) 2015(b)—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (iii) hepgorwch "neu";
- (b) ar ddiwedd is-baragraff (iv) mewnosodwch "neu" ac ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosodwch—
 - “(v) Atodlen AA1 (amddifadu o ryddid: wdurdodi trefniadau sy'n galluogi gofal a thriniaeth);”.

Diwygiad o Reoliadau Cartrefi Plant (Lloegr) 2015

9. Yn rheoliad 20(3) o Reoliadau Cartrefi Plant (Lloegr) 2015(c), am “gorchymyn llys” rhowch—

“—

- (a) Atodlen AA1 i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (amddifadu o ryddid: awdurdodi trefniadau sy'n galluogi gofal a thriniaeth); neu
- (b) orchymyn llys”.

RHAN 5

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH EILAIIDD SY'N DOD I RYM AR []: LLOEGR

Diwygiad i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol 2000

10. Yn rheoliad 5(c) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol 2000, ar gyfer “Atodlen A1 ac AA1” rhowch “Atodlen AA1”.

Diwygiad o Reoliadau'r Comisiwn Ansawdd Gofal (Cofrestru) 2009

11. Yn rheoliad 18 o Reoliadau'r Comisiwn Ansawdd Gofal (Cofrestru) 2009(d), hepgorwch baragraffau (4A), (4B) a (5)(a), (e) ac (f).

Diwygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Codi Taliadau ar Ymwelwyr o Dramor) 2015

12. Yn rheoliad 18(b) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Codi Taliadau ar Ymwelwyr o Dramor) 2015—

- (a) ar ddiwedd is-baragraff (iii) mewnosodwch "neu";
- (b) hepgorwch is-baragraff (iv) a'r "neu" yn syth ar ei ôl.

(a) S.I. 2000/617. Mae paragraff (c) yn cael ei ddisodli gan S.I. 2009/278.

(b) S.I. 2015/238.

(c) S.I. 2015/541.

(d) S.I. 2009/3112. Mae paragraffau (4A) a (4B) wedi'u mewnosod gan S.I. 2012/921.

RHAN 6

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH EILAIDD SY'N DOD I RYM AR []: LLOEGR A CHYMRU

Diwygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000

13. Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000(a), ar gyfer is-baragraff (ea) rhowch-

“(ea) Cynrychiolaeth Gyfreithiol—

- (i) o unigolyn mae cais wedi cael ei wneud ar ei gyfer o dan adran 4B o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 trwy rinwedd cymhwys is-adran (7)(b) o'r adran honno i'r unigolyn hwnnw, neu o unigolyn priodol sy'n cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn hwnnw yn unol â pharagraff 42(5) o Atodlen AA1 i'r Ddeddf honno, mewn achos yn y Llys Gwarchod o dan y Ddeddf honno;
- (ii) o unigolyn mewn perthynas ag y mae awdurdodiad mewn grym ar ei gyfer o dan Atodlen AA1 i'r Ddeddf honno neu o unigolyn priodol sy'n cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn hwnnw yn unol â pharagraff 42(5) o'r Atodlen honno, mewn achos yn y Llys Gwarchod o dan adran 21ZA o'r Ddeddf honno;
- (iii) o unigolyn mewn perthynas ag y mae awdurdodiad mewn grym ar ei gyfer o dan baragraff 2 o Atodlen A1 i'r Ddeddf honno, neu o gynrychiolydd a benodir fel y cyfryw yn unol â Rhan 10 o'r Atodlen honno, mewn achos yn y Llys Gwarchod o dan adran 21A o'r Ddeddf honno;

Diwygiad o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thâl am Wasanaethau) 2013

14. Yn rheoliad 5 o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thâl am Wasanaethau) 2013(b)—

(a) ar gyfer is-baragraff (1)(g) rhowch—

“(g) gynrychiolaeth gyfreithiol mewn perthynas â mater a ddisgrifir ym mharagraff 5(1)(c) o Ran 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (galluedd meddyliol) i'r graddau fod y gynrychiolaeth gyfreithiol mewn achos yn y Llys Gwarchod y mae paragraff (1A) yn gymwys iddo;”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosodwch—

“(1A) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i achosion—

- (a) mewn perthynas â chymhwys adran 4B o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (“Deddf 2005”) i unigolyn trwy rinwedd is-adran (7)(b) o'r adran honno lle mae'r unigolyn y gellir darparu cynrychiolaeth gyfreithiol iddo yn—
- (i) yr unigolyn y mae awdurdodiad y ceisir ar ei gyfer o dan Atodlen AA1 i Ddeddf 2005, neu
 - (ii) unigolyn priodol sy'n cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn hwnnw yn unol â pharagraff 42(5) o'r Atodlen honno;
- (b) o dan adran 21ZA o Ddeddf 2005 lle mae'r unigolyn y gellir darparu cynrychiolaeth gyfreithiol iddo yn—
- (i) yr unigolyn y mae awdurdodiad mewn grym ar ei gyfer o dan Atodlen AA1 i Ddeddf 2005; neu
 - (ii) unigolyn priodol sy'n cynrychioli a chynorthwyo'r unigolyn hwnnw yn unol â pharagraff 42(5) o'r Atodlen honno;

(a) S.I. 2000/516.

(b) S.I. 2013/480.

- (c) o dan adran 21A o Ddeddf 2005 lle mae'r unigolyn y gellir darparu cynrychiolaeth gyfreithiol iddo yn—
 - (i) yr unigolyn y mae awdurdodiad mewn grym yn ei gylch o dan baragraff 2 o Atodlen A1 i Ddeddf 2005; neu
 - (ii) gynrychiolydd yr unigolyn hwnnw a benodir yn unol â Rhan 10 o'r Atodlen honno.”.

Diwygiad o Reolau'r Llys Gwarchod 2017

15. Yn Rheolau'r Llys Gwarchod 2017(a)—

- (a) yn rheol 2.1, yn y diffiniad o “P”, ar ddiwedd paragraff (b) mewnosodwch “neu unigolyn y gofalir amdano y mae trefniadau am ofal neu driniaeth ar ei gyfer yn cael eu gwneud o dan Atodlen AA1 i'r Ddeddf”;
- (b) yn rheol 8.2(c), ar ôl "adran" mewnosodwch "21ZA neu”.

RHAN 7

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH EILAIIDD SY'N DOD I RYM AR []: LLOEGR A CHYMRU

Diwygiad o Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000

16. Yn rheoliad 3(1)(ea) o Reoliadau'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (Ariannol) 2000, hepgorwch baragraff (iii).

Diwygiad o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thâl am Wasanaethau) 2013

17. Yn rheoliad 5(1A) o Reoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Adnoddau Ariannol a Thâl am Wasanaethau) 2013, hepgorwch is-baragraff (c).

Diwygiad o Reolau'r Llys Gwarchod 2017

18. Yn Rheolau'r Llys Gwarchod 2017—

- (a) yn rheol 2.1, yn y diffiniad o “P”, hepgorwch “fel y diffinnir gan Atodlen A1 i Ddeddf 2005 neu”;
- (b) yn rheol 8.2(c), hepgorwch “neu 21A”.

RHAN 8

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH EILAIIDD SY'N DOD I RYM AR []: CYMRU

Diwygiad i Reoliadau Iechyd Meddwl (Cyd-drefnu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011

19.—(1) Diwygir Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cyd-drefnu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011(b) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, mewnosodwch yn y lle priodol—

(a) S.I. 2017/1935.

(b) Cymru S.I. 2011/2942 (W. 318).

“ mae gan “corff cyfrifol” (“corff cyfrifol”) yr ystyr a roddir ym mharagraff 6 o Atodlen AA1 i Ddeddf 2005;”.

(3) Yn rheoliad 6(2)—

- (a) hepgorwch “a” ar ddiwedd is-baragraff (g);
- (b) mewnosodwch “a” ar ddiwedd is-baragraff (h);
- (c) ar ôl is-baragraff (h) mewnosodwch—

“(i) lle mae'r claf hwnnw'n ddarostyngedig i awdurdodiad wedi'i roi o dan Atodlen AA1 i Ddeddf 2005, y corff cyfrifol a'r unigolyn priodol neu IMCA sy'n cynrychioli a chynorthwyo'r claf hwnnw o dan baragraff 42 o Atodlen AA1 i Ddeddf 2005.”.

(4) Yn rheoliad 8(2)—

- (a) hepgorwch “a” ar ddiwedd is-baragraff (g);
- (b) mewnosodwch “a” ar ddiwedd is-baragraff (k);
- (c) ar ôl is-baragraff (k) mewnosodwch—

“(i) lle mae'r claf hwnnw'n ddarostyngedig i awdurdodiad wedi'i roi o dan Atodlen AA1 i Ddeddf 2005, y corff cyfrifol a'r unigolyn priodol neu IMCA sy'n cynrychioli a chynorthwyo'r claf hwnnw o dan baragraff 42 o Atodlen AA1 i Ddeddf 2005.”.

RHAN 9

DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH EILAIDD SY'N DOD I RYM AR []: CYMRU

Diwygiad o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

20. Yn rheoliad 31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011(a), hepgorwch baragraffau (1)(e) a (2).

Diwygiad i Reoliadau Iechyd Meddwl (Cyd-drefnu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011

21.—(1) Diwygir Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cyd-drefnu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011 fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, hepgorwch y diffiniadau o ““awdurdod rheoli” (“awdurdod rheoli”) a ““corff goruchwylio” (“corff goruchwylio”)”.

(3) Yn rheoliad 6(2)—

- (a) yn is-baragraff (f)—
 - (i) ar gyfer “Corff y GIG), 39” rhowch “Corff y GIG) neu 39”;
 - (ii) hepgorwch o “,39A” i “cynrychiolydd”;
- (b) mewnosodwch “a” ar ddiwedd is-baragraff (f);
- (c) hepgorwch is-baragraffau (g) a (h).

(4) Yn rheoliad 8(2)—

- (a) yn is-baragraff (i), ar gyfer “37, 38, 39, 39A, 39C neu 39D” rhowch “37, 38 neu 39”;
- (b) mewnosodwch “a” ar ddiwedd is-baragraff (i);
- (c) hepgorwch is-baragraffau (j) a (k).

(a) Cymru S.I. 2011/734 (W. 112).

Diwygiad i Reoliadau'r Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

22. Hepgorwch baragraff 22 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

Diwygiad i Reoliadau'r Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

23. Hepgorwch baragraff 20 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019(a).

RHAN 10 DIRYMIADAU

Dirymiadau

24. Dirymir yr offerynau y manylir arnynt yn yr Atodlen.

Enw
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol

Dyddiad Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

ATODLEN DIRYMIADAU

Rheoliad 24

<i>Offeryn Statudol</i>	<i>Rhif S.I.</i>
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Awdurdodiadau, Asesiadau a Phreswyliaeth Arferol Safonol) 2008	S.I. 2008/1858
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Unigolyn Perthnasol) 2008	S.I. 2008/1315.
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Unigolyn Perthnasol) (Diwygiad) 2008	S.I. 2008/2368.
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Monitro ac Adrodd; ac Asesiadau-Diwygiad) 2009	S.I. 2009/827.
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Penodi Cynrychiolydd Unigolyn Perthnasol) (Cymru) 2009	Cymru S.I. 2009/266 (W. 29).
Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Asesiadau, Awdurdodiadau Safonol ac Anghydfodau ynghylch Preswyliaeth) (Cymru) 2009	Cymru S.I. 2009/783 (W. 69).

(a) Cymru S.I. 2019/163 (W. 40).

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol a dirymiadau mewn cysylltiad â Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 yn dod i rym (c.18).

Mae'r Ddeddf honno yn diwygio Deddf Iechyd Meddwl 2005 (c.9) i osod system newydd o Weithdrefnau Amddiffyn Rhyddid. Mae prif ddarpariaethau'r Ddeddf honno yn dod i rym ar [] ond oherwydd bod awdurdodiadau penodol yn gallu parhau mewn grym o dan yr hen system o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid trwy rinwedd Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 Rheoliadau (Darpariaethau Cychwyn, Trosiannol ac Arbedion) 2021 (S.I.2021/), mae darpariaethau penodol yn y Rheoliadau hyn ac mae'r dirymiadau yn dod i rym ar [].

Ni chynhyrchwyd asesiad effaith llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith, neu unrhyw effaith arwyddocaol, ar y sector preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.